# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2015** |
| Amser: | **09.00 - 11.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2604**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Steve Ashcroft, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Albert Heaney, Llywodraeth Cymru**<br>**Lisa Dunsford, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

1.2 Nodwyd y papurau.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

4.1 Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru wybod i'r Pwyllgor am ei hadroddiad diweddar ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG - Adroddiad Dilynol.

## 5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, a Lisa Dunsford, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Integreiddio, Polisi a Chyflawni.

5.2 Cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- egluro pa gyfran o'r 20 o achosion gan ddau fwrdd iechyd yn sampl yr archwiliad oedd yn ymwneud ag anabledd dysgu neu ddementia a rhannu canlyniadau'r adolygiad o'r achosion hynny;
- cadarnhau pa fwrdd iechyd dynnodd yn ôl o'r gwaith o brofi'r Offeryn Gwneud Penderfyniadau;
- darparu nodyn ar yr anawsterau y mae Betsi Cadwaladr wedi'u hwynebu yn recriwtio i rolau proffesiynol a chadarnhau a ydynt bellach yn gweithredu'n llawn; a
- darparu nodyn am faint y tendr o fewn pob bwrdd iechyd mewn perthynas â'r gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer gofal iechyd parhaus.

## 6 Gofal heb ei drefnu: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur wedi'i ddiweddaru a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 7 Rheoli effaith y newidiadau i ddiwygiadau lles: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Reoli Effaith y Newidiadau i Ddiwygiadau Lles.